



Deon Cyswilt (Materion Academaidd)

**Pecyn Ymgeisydd**

Rhagfyr 2018



## Cyflwyniad

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yw'r Brifysgol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru sy'n gwasanaethu ar gyfer y rhanbarth. Mae'n brifysgol ifanc, fentrus ac uchelgeisiol sy'n cyfrannu at dwf economaidd y rhanbarth trwy bartneriaethau diwydiannol cryfion. Mae ganddi natur gefnogol sy'n gosod myfyrwyr wrth galon ei holl weithgareddau. Mae hi wedi cychwyn arni i ddarparu cynllun strategol newydd a fydd yn cryfhau ei hymchwil, trosglwyddiad gwybodaeth a menter, a datblygu ystod o bartneriaethau cenedlaethol a rhyngwladol ymhellach.

Mae'r Gyfadran Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn grŵp bywiog o ddisgyblaethau yn amrywio o Beirianeg, yr Amgylchedd Adeiledig ac Ynni Adnewyddadwy i'r Cyfryngau, Celf, Dylunio a'r Dyniaethau. Mae'n cwmpasu oddeutu 45% o'r Brifysgol, ac mae ganddi gynlluniau uchelgeisiol i ehangu ei phortffolio, cynyddu poblogaeth ei myfyrwyr a gwella ymchwil a menter dros y blynyddoedd nesaf. Mae'n benderfynol o chwarae rôl flaenllaw yn y sector AU, darparu dulliau gweithredu arloesol i addysgeg, creu dysg a datblygu cwricwlwm ar y cyd, a chyflawni safonau rhagorol mewn cyflogadwyedd.

Bydd y Deon Cyswllt (Materion Academaidd) newydd yn darparu arweinyddiaeth strategol a rheolaeth ymarferol, gan fabwysiadu diwylliant sy'n cyfuno cydweithio a chefnogaeth gyda pherfformiad uchel ac entrepreneuriaeth. Bydd y sawl a benodir yn chwarae rôl arwain allweddol yng nghyswllt ansawdd addysgu a phob agwedd academaidd ar brofiad myfyrwyr yn y gyfadran, gan gefnogi'r Deon i ddarparu strategaeth y gyfadran a gweithio fel sy'n briodol â chydweithwyr ar draws y sefydliad. Bydd gan ymgeiswyr delfrydol brofiad o arloesedd blaenllaw mewn addysgu, dysgu a phrofiad ehangach y myfyriwr. Mae gallu amlwg i arwain mentrau strategol a meithrin ethos tîm cryf yn hanfodol. Byddant yn academyddion credadwy yn un o ddisgyblaethau'r gyfadran.

## Cefndir

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam (PGW) yw'r Brifysgol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru sy'n gwasanaethu ar gyfer y rhanbarth. Mae gweledigaeth a strategaeth PGW hyd at 2025 yn seiliedig ar bartneriaethau gyda myfyrwyr a staff, o fewn addysg, trwy gysylltiadau diwydiannol ac ymchwil gymhwysol arloesol. Rydym yn ymrwymedig i adeiladu prifysgol sy'n fywiog yn academaidd ac yn sefydlog yn ariannol ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru sy'n bodloni anghenion cenedlaethau'r dyfodol o fyfyrwyr, yn sail i lwyddiant economaidd rhanbarthol ac yn llwyfan cadarnhaol i broffilio'r rhanbarth yn y byd ehangach. Mae'r amcanion hyn wedi'u gosod yng nghyd-destun gwerthoedd ac ethos PGW fel prifysgol gynhwysol sy'n cefnogi sail myfyrwyr amrywiol.

Mae llwyddiant yn hanfodol i gefnogi economi leol fywiog ac rydym yn benderfynol o fod yn ffocws ar gyfer arloesedd, sgiliau uwch a datblygiad busnes yn y rhanbarth. Yn ogystal â'n gwaith ar y cyd yn rhanbarthol a chenedlaethol, mae ein partneriaethau eraill yn cynnwys prifysgolion yng ngwledydd eraill yr UE, Malaysia, Tsieina a Singapore, yn ogystal â sefydliadau ledled Cymru a gweddill y DU sy'n cyd-weithio â ni.

## Y Gyfadran

### Cyfadran y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg

#### Amdanom Ni

Gall Cyfadran y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam olrhain traddodiad o arloesedd yn y Celfyddydau a'r Gwyddorau yn ôl i Ysgol Wyddoniaeth a Chelfyddydau wreiddiol Wrecsam a agorwyd gyntaf yn 1887. Mae'r Gyfadran yn grŵp arloesol o unigolion sy'n cael eu hysgogi gan ysfa i gefnogi a datblygu'r diwydiannau creadigol a thechnolegol trwy arbenigedd a dyfeisgarwch.

#### Addysgu a Dysgu

Croesewir myfyrwyr i amgylchedd o greu ar y cyd, lle mae profiad ymarferol yn cefnogi pob agwedd ar addysgu a dysgu, boed hynny trwy'r cyfleusterau cyfoes yn y brifysgol i greu sefyllfaoedd realistig, neu drwy ymweliadau â'r diwydiant, astudiaethau neu gystadlaethau. Mae prawf o'n ffocws ar wireddu cysylltiadau byw rhwng gwaith myfyrwyr, cymdeithas a'r diwydiannau creadigol i'w weld yn ein cyflogadwyedd a'n gwobrau.

#### Cyfleusterau

Mae ystod eang o gyfleusterau gan gynnwys ardaloedd stiwdio a gweithdai pwrpasol ar gyfer Celf a Dylunio, cyfleusterau sgrin a sain, ardal gelfyddydau perfformio, labordy rhwydweithio cyfrifiaduron arbenigol, offer peirianeg megis efelychydd hedfan, twnnel gwynt, awyrendy awyrennau, gweithdy chwaraeon moduro arbenigol a labordy deinameg thermo-hylif wedi'i gyfarparu'n dda. Ceir cyfleusterau gwyddoniaeth hefyd gan gynnwys Labordy Gwyddoniaeth Fforensig ar gyfer sefyllfaoedd trosedd ffug, labordai dadansoddi cemegol ac offerynnol pwrpasol a'r unig fferm cyrff yng Nghymru ar gyfer astudiaeth ac ymchwil taphonomeg.

#### Partneriaethau

Mae gan y Gyfadran gysylltiadau rhyngwladol a phroffesiynol yn ogystal â chysylltiadau diwydiannol y gall ein myfyrwyr a'n cyn-fyfyrwyr eu defnyddio i ddatblygu eu huchelgeisiau, i arbrofi a datblygu eu doniau, waeth beth yw eu meysydd, o orielau ac amgueddfeydd i safleoedd diwydiannol a chwmnïau technolegol. Mae'r timau yn y Gyfadran ar flaen y gad ac mae galw mawr am eu cyngor gan nifer o sefydliadau yn y rhanbarth.

#### Ymchwil

Mae ein gwaith ymchwil wedi'i gydnabod yn genedlaethol a rhyngwladol, gyda gwaith gorffenedig wedi'i gyflwyno'n fyd-eang. Mae ein Cyfadran yn darparu cymuned fywiog sy'n enwog am ei gwaith arloesol sy'n herio'r meddwl. Mae gwaith ymchwil a gwaith ar y cyd ar draws disgyblaethau yn gyffredin rhwng adrannau ac mae amrywiaeth eang o arbenigedd yn y Gyfadran.

## Strategaeth a gweledigaeth y Brifysgol

Y pedair prif ran o strategaeth a gweledigaeth y brifysgol yw:

1. **Addysgu sy'n ysbrydoli;** dysg sy'n seiliedig ar y byd gwaith ac sy'n berthnasol iddo. Mae myfyrwyr yn gadael y brifysgol fel dinasyddion medrus, gwybodus a mentrus sy'n gallu bodloni heriau'r 21ain ganrif.
2. **Ymchwil sy'n trawsffurfio;** cefnogi arloesedd, dysg a thwf economaidd, ac sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol ac yn fyd-eang.
3. **Ymgysylltu sy'n galluogi;** sy'n cynnwys yr holl gymuned, gan adnabod pwysigrwydd ein partneriaid lleol a rhanbarthol, ein lle yng Nghymru fel ein prif leoliad, a'n hymrwymiad iddi.
4. **Strwythur sy'n cynnal;** rheoli adnoddau sy'n sail i weithrediad proffesiynol y brifysgol, a gwneud hynny mewn modd teg, cynhwysol a chyfiawn.

## Nodau'r Gyfadran

Mae'r rhain yn seiliedig ar ddarparu strategaeth a gweledigaeth y brifysgol:

1. Gwella ansawdd ac effeithiolrwydd gweithgareddau addysgu ar draws yr holl raglenni i fyfyrwyr o gefndiroedd amrywiol.
2. Datblygu cwricwlwm sy'n cyfarparu ein myfyrwyr â'r wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer y byd gwaith ac astudiaeth bellach ac sy'n gwella rhagolygon myfyrwyr (Graddedig Glyndŵr Wrecsam).
3. Cynnal neu ragori ar lefelau disgwylidig o fodlonrwydd myfyrwyr ar bob rhaglen.
4. Datblygu capasiti ymchwil a gallu'r Gyfadran drwy ddatblygu ein staff.
5. Ail-fuddsoddi incwm yn ôl i isadeiledd ac adnoddau dynol y Gyfadran.

## Pedair Priodoledd Graidd



### Ymgysylltu

Gallu cymryd cyfrifoldeb am eich canlyniadau a manteisio ar gyfleoedd i gymryd rhan a datblygu.



### Creadigrwydd

Gallu dyfeisio a datblygu syniadau gwreiddiol i greu canlyniadau newydd a diddorol.



### Menter



Dangos y gallwch weithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun, dangos dyfeisgarwch a natur benderfynol i gyflawni canlyniadau.

### Moesol



Ymddwyn mewn modd gofalgar ac egwyddorol, gyda gonestrwydd a pharch at amrywiaeth. Persbectif byd-eang ac ymrwymiad i osgoi niwed i eraill a'r amgylchedd.

## Pum Agwedd Allweddol



### Ymrwymiad

Gallu ymgysylltu â gweithgareddau mewn ffordd bendant a gweithio tuag at eich nodau.



### Chwilfrydedd

Bod ag awydd i ehangu eich gwybodaeth a'ch gorwelion a deall y byd yn well.

### Hyder



### Hyblygrwydd



Bod â hunan-sicrwydd yn deillio o werthfawrogiad o'ch galluoedd a'ch rhinweddau.

Gallu ymateb i ofynion a hyrwyddwyr newidiol, yn bersonol ac yn fyd-eang, a gweld eich hun fel dysgwr gydol oes ar daith barhaus.



### Gwytwnch



Gallu rheoli problemau ac adfer yn sgil anawsterau, a chydabod bod honno'n briodoledd i chi ei datblygu.

## Chwe Sgil Ymarferol



### Rhuglder Digidol

Deall a gallu dethol a defnyddio'r offer a'r technolegau addas i gyflawni'r canlyniadau dymunol.




### Meddwl yn Feirniadol

Gallu cymhwyso egwyddorion rhesymegol, safonau tystiolaeth manwl gywir, a rhesymeg ofalus i ddadansoddi a thrafod hawliau, credoau a materion.



### Deallusrwydd Emosiynol

Gallu adnabod, deall a rheoli emosiynau eich hun ac eraill.



### Cyfathrebu




Gallu cyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol, at y diben a'r gynulleidfa fwriededig, yn ysgrifenedig ac ar lafar, ac ar draws gyfryngau gwahanol.

### Arweinyddiaeth a Gwaith Tîm

Gallu gweithio'n effeithiol mewn timau, gan roi cefnogaeth ac arweinyddiaeth effeithiol i aelodau'ch tîm.







Am ragor o wybodaeth neu i wneud cais, ewch i [www.minervasearch.com/glyndwr](http://www.minervasearch.com/glyndwr)

Dylai ceisiadau fod ar ffurf CV a llythyr eglurhaol a dylid eu hanfon at [glyndwr@minervasearch.com](mailto:glyndwr@minervasearch.com)

Dyddiad cau: 7 Chwefror 2019

## Manylion Cyswilt

Gellir cysylltu â Minerva fel a ganlyn:

**Ymchwilydd**

Aino Lukkari

**Ymgynghorydd**

Rebecca Jones

**Ymgynghorydd**

Ben Tucker

**Cynorthwydd**

Kellie Horner

Pe dymunech gael sgwrs, cysylltwch ag Aino neu Rebecca drwy anfon e-bost at [glyndwr@minervasearch.com](mailto:glyndwr@minervasearch.com)